**<u>Adroddiad cyfarfod gyda grwpiau codi arian am diffibriliwyr</u>**

Gwnaed Cadeirydd y Cyngor a nifer o aelodau'r Cyngor cyfarfod gyda grwpiau codi arian sydd â diddordeb mewn prynu diffibrilwyr yn y Gymuned ddydd Iau, 17 Ionawr 2019. Mynychodd cynrychiolwyr CFfI Llanismel, Cywion Bach, y Llew Coch ynghyd ag unigolion a fydd yn cymryd rhan yn y casgliadau drws i ddrws.

Gwnaeth y Clerc cadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn barod i weithredu fel bancwr ar gyfer y prosiect, i brynu'r offer ac i'w cynnal a'u hyswirio yn symud ymlaen ar ôl eu gosod.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y posibilrwydd o brynu o leiaf 5 diffibriliwr i'w gosod ym Mancycapel, Croesyceiliog, Cwmffrwd, Idole a Llandyfaelog. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddarparu eitem ym Mhentrepoeth ac a fyddai angen eitem ychwanegol yng Nghwmffrwd oherwydd maint y pentref. Bydd angen ystyriaeth bellach mewn perthynas â lleoliadau gosod.

Trafodwyd hyfforddiant posib ar gyfer y Gymuned ar ddefnyddio'r eitemau yn dilyn eu gosod.

Nodwyd bod CFfI Llanismel wedi codi tua £1,000 ac roedd Cywion Bach wedi codi £815. Credir fod Little Bambinos yn codi arian hefyd. Nododd y Llew Coch eu bod wedi codi digon o arian i ddarparu darn o offer yn fynedfa'r Llew Coch.

Cadarnhawyd y byddai'r Llew Coch yn bwrw ymlaen â'u harchebu yn annibynnol i'r Cyngor Cymuned.

Cadarnhawyd byddai casgliadau o ddrws i ddrws yn dechrau ar 21ain Ionawr ac yn parhau i 23ain Chwefror 2019.

Cytunwyd byddai cyfarfod pellach gyda'r grwpiau yn cael ei gynnal wythnos y 25ain Chwefror ar ôl i'r casgliadau o ddrws i ddrws ddod i ben er mwyn cadarnhau'r arian a godwyd ac ar gael ac ystyried archebu a'r camau nesaf.

Cadarnhawyd byddai'r Cyngor Cymuned yn medru archebu eitemau cyn gynted ag y rhoddwyd digon o arian yn ei gyfrif banc.

Cyflwynodd Cywion Bach eu siec am £815 ar y noson sydd wedi'i fancio gan y Cyngor Cymuned.